Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i gymunedau arfordirol a gwledig
## Papur briffio

Gorffennaf 2022



ymchwil.senedd.cymru/

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru/**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Senedd Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6294**
E-bost: **ben.stokes@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd Cymru 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i gymunedau arfordirol a gwledig

## Papur briffio

Gorffennaf 2022

**Cyfranwyr:**
Ben Stokes, Elfyn Henderson, Lorna Scurlock, Robin Wilkinson, Francesca Howorth a Božo Lugonja

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **1**

**Twristiaeth** ........ **1**

Cynigion ar gyfer ardoll twristiaeth ........ 1

Beth mae Pwyllgorau'r Senedd wedi'i ddweud? ........ 2

**Datblygu economaidd rhanbarthol** ........ **2**

Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ........ 2

**Seilwaith digidol** ........ **3**

Cefndir ........ 3

Cwmpas band eang ........ 4

Gwasanaeth symudol ........ 5

Ymatebion polisi ........ 5

**Cymunedau gwledig** ........ **6**

Tlodi trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig ........ 6

Plannu coed ........ 7

**Cynhyrchu bwyd** ........ **8**

Bil Amaethyddiaeth ........ 8

Cynnydd yn nghostau mewnbynnau ........ 8

Ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol ........ 9

Strategaeth bwyd cymunedol ........ 9

**Polisi arfordirol a morol ........ 10**

Ynni Adnewyddadwy Morol ........ 10

Ystâd y Goron ........ 10

Seilwaith porthladdoedd a'r grid ........ 11

Addasu arfordirol ........ 11

Cefnogi cymunedau arfordirol ........ 12

**Porthladdoedd rhydd ........ 12**

Sefydlu porthladdoedd rhydd ledled y DU ........ 13

Porthladdoedd rhydd yng Nghymru ........ 13

# Cyflwyniad

Ar 15 Gorffennaf, bydd **Pwyllgor Craffu'r Senedd ar Waith y Prif Weinidog** yn holi'r Prif Weinidog, Mark Drakeford, ynghylch y cymorth a gaiff cymunedau arfordirol a gwledig gan Lywodraeth Cymru. Mae'r papur briffio hwn yn nodi rhai o'r prif faterion a allai godi yn ystod y sesiwn.

# Twristiaeth

## Cynigion ar gyfer ardoll twristiaeth

Mae ardollau twristiaeth yn gyffredin mewn llawer o gyrchfannau twristiaid ar draws y byd. Defnyddir yr ardollau hyn i ariannu'r gwaith o gynnal a chadw cyfleusterau ymwelwyr yn ogystal â gofalu am yr amgylcheddau y mae twristiaid yn ymweld â nhw. Mae **Rhaglen Lywodraethu** a **Chytundeb Cydweithio** Llywodraeth Cymru ill dau yn addo cyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n caniatáu i awdurdodau lleol yng Nghymru godi ardoll twristiaeth.

Mae'r **Ardoll Leol ar gyfer Twristiaeth** yn ardoll arfaethedig a fyddai'n cael ei gosod ar arosiadau dros nos yng Nghymru. Byddai'r penderfyniad i godi ardoll yn cael ei adael i awdurdodau lleol unigol, a byddai'r arian a godir yn cael ei fuddsoddi yn ardal yr awdurdod lleol. **Amlinellodd** Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, yr ardoll fel cyfle i awdurdodau lleol 'reoli a buddsoddi yn y gwasanaethau a'r seilwaith sy'n gwneud twristiaeth yn llwyddiant', boed hynny drwy lanhau traethau neu gynnal a chadw toiledau a llwybrau cerdded. Mae'r ardoll yn cael ei chynnig i gefnogi dyfodol lleoliadau twristiaeth yng Nghymru drwy hyrwyddo agwedd fwy cynaliadwy at dwristiaeth. Nid yw'r **union ffi** a godir ar ymwelwyr wedi ei phenderfynu eto.

Mae Cynghrair Twristiaeth Cymru (WTA) wedi **cydnabod** bod ardollau twristiaeth yn cael eu defnyddio mewn gwledydd eraill, ond mae wedi tynnu sylw at y ffaith bod cyfraddau TAW fel arfer yn cael eu lleihau ar dwristiaeth a lletygarwch os oes ardollau'n cael eu codi. Gyda chyfradd bresennol TAW yng Nghymru, mae'r WTA yn awgrymu y byddai cyflwyno ardoll twristiaeth yn fath o 'drethiant dwbl' o gymharu â chyrchfannau eraill.

Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol **wedi cymeradwyo'n ddiweddar** gyllid ar gyfer tri phrosiect ymchwil i gefnogi datblygiad yr ardoll twristiaeth arfaethedig. **Adroddwyd** y bydd yr ymchwil hwn yn ystyried effeithiau economaidd ardoll

twristiaeth yng Nghymru; systemau treth gwledydd penodedig eraill lle defnyddir ardollau twristiaeth; ac asesiad o ddemograffeg y sector llety yng Nghymru.

Bydd **ymgynghoriad** ffurfiol ar ddeddfwriaeth ddrafft yn cael ei gynnal yn hydref 2022.

### Beth mae Pwyllgorau'r Senedd wedi'i ddweud?

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig adroddiad ar sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu. Roedd argymhellion eang y Pwyllgor yn cynnwys galwad ar Weinidog yr Economi i "barhau â'r ddeialog gyda Thrysorlys EM ar newidiadau posibl yn y dyfodol i lefel TAW i gefnogi'r adferiad bregus yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, yn enwedig yn sgil y pwysau costau byw cynyddol ar fusnesau yn y sectorau hynny".

Amlygwyd pwysigrwydd y sector twristiaeth yng Nghymru hefyd yn adroddiad diweddar y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar **Ail Gartrefi.** Nododd y Pwyllgor fod llawer o'r rhai a roddodd dystiolaeth wedi cyfeirio at "fanteision economaidd twristiaeth i Gymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol lle mae cyfran sylweddol o bobl yn dibynnu ar y diwydiannau twristiaeth a lletygarwch am eu bywoliaeth".

Tynnodd y Pwyllgor sylw hefyd at y ffaith bod manteision economaidd twristiaeth yn cael eu gorbwyso gan effeithiau negyddol mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ac argymhellodd y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil bellach i'r mater hwn.

## Datblygu economaidd rhanbarthol

### Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol

Ym mis Rhagfyr 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei **Chynllun Gweithredu ar yr Economi** a oedd yn nodi bwriad y llywodraeth i 'ddatblygu'r economi ar sail model rhanbarthol'. Nod hyn oedd 'datblygu'r cryfderau unigryw sydd gan bob rhanbarth wrth inni fynd ar drywydd twf, ond gan wneud hynny mewn ffordd gynhwysol a chan gydnabod a mynd i'r afael â'r gwahaniaethau rhanbarthol o ran cyfoeth a chyfleoedd rhwng rhannau gwahanol o Gymru'.

Fel rhan o'r dull gweithredu, cyhoeddodd y Cynllun Gweithredu ar yr Economi fod Llywodraeth Cymru wedi penodi Swyddogion Rhanbarthol i arwain pob un o'r rhanbarthau economaidd a dod â phartneriaid ynghyd i 'ddatblygu ac i gyflawni cynlluniau busnes a fydd yn nodi blaenoriaethau a chyfleoedd rhanbarthol'. Yn y blynyddoedd a ddilynodd daeth y cynlluniau busnes rhanbarthol hyn i gael eu hadnabod fel 'Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol' (REF).

Ym mis Rhagfyr 2021, bedair blynedd ar ôl cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi, cyhoeddodd y Gweinidog **ddatganiad ysgrifenedig** yn tynnu sylw at gyhoeddi'r **Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol ar gyfer y pedwar rhanbarth economaidd** – Gogledd Cymru; Canolbarth Cymru; De-orllewin Cymru; a De-ddwyrain Cymru.

Mae pob un o'r pedwar Fframwaith wedi'u cyhoeddi ar ffurf drafft gyda datganiad y Gweinidog yn nodi eu bod i gyd wedi cyrraedd 'cam datblygu ychydig yn wahanol'.

Yn ôl y Gweinidog bydd y Fframweithiau'n 'chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni ein hymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu i ddatblygu ein Cenhadaeth Adfer Economaidd Chydnerthedd a dylent lywio ein hymdrechion ar y cyd'.

# Seilwaith digidol

## Cefndir

Mae telathrebu yn fater a gadwyd yn ôl, sy'n golygu bod ymyriadau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn wedi'u cyfyngu i gyllid grant a defnyddio ysgogiadau polisi datganoledig – megis cynllunio ac ardrethi busnes – i annog buddsoddiad preifat mewn band eang a rhwydweithiau symudol. Noda **Strategaeth Ddigidol** Llywodraeth Cymru:

> Mae'r rhain yn dal i fod yn faterion a gadwyd yn ôl nad yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt ac nad ydynt yn cael unrhyw gyllid datganoledig. [...]
>
> Byddwn yn buddsoddi i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau lle ceir achos o blaid hynny, fodd bynnag, rhaid inni ganolbwyntio hefyd ar sicrhau bod Llywodraeth y DU yn ysgwyddo'i chyfrifoldebau yng Nghymru.

## Cwmpas band eang

Dros yr wyth mlynedd diwethaf, mae'r bwlch o ran mynediad at fand eang cyflym iawn yng Nghymru a chyfartaledd y Deyrnas Unedig wedi **lleihau'n aruthrol**, yn dilyn buddsoddiad a arweiniwyd gan Lywodraeth Cymru drwy ei rhaglen Cyflymu Cymru.

Yn ôl yn 2014, gallai 55% o eiddo preswyl gael band eang ar gyflymder o 30 megabeit yr eiliad (Mbps) neu fwy, o gymharu â 75% ar draws y DU yn ei chyfanrwydd. Yn 2021, roedd i ffigur hwn wedi codi i 94% (cyfartaledd y DU yw 96%). Dyma'r math o gyflymder y gall un person ffrydio fideo 4K/Diffiniad Uchel Iawn neu ddefnyddio sawl dyfais ar yr un pryd.

**Safleoedd sydd â chysylltiad â rhwydweithiau band eang sefydlog yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU yn 2021**

| Metrig | Cymru | Y DU |
|---|---|---|
| Ffeibr llawn[1] | 27% | 28% |
| 300 Mbps neu gyflymach | 44% | 65% |
| 100 Mbps neu gyflymach | 46% | 66% |
| 30 Mbps neu gyflymach | 94% | 96% |
| 10 Mbps neu gyflymach | 97% | 98% |
| Cyflymder lawrlwytho o lai na 10 Mbps neu gyflymder lanwytho o lai nag 1 Mbps | 3% | 2% |

*Ffynhonnell:* ***Adroddiad rhyngweithiol Cysylltu'r Gwledydd 2021 Ofcom*** *Mae ffigurau ar gyfer cyflymder o 10 Mbps neu lai ar gyfer pob eiddo, tra bod ffigurau eraill ar gyfer eiddo preswyl yn unig.*

Mae Ofcom yn **amcangyfrif** na all tua 15,000, neu 1% o safleoedd gael gwasanaeth band eang call gyda chyflymder lawrlwytho o 10Mbps a chyflymder lanlwytho o 1Mbps o leiaf naill ai o rwydweithiau di-wifr sefydlog neu symudol. Gallai'r safleoedd hyn gael eu cysylltu o dan **Rwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol** Llywodraeth y DU.

1 Mae'r cysylltiad o'r gyfnewidfa i'r eiddo yn cael ei ddarparu'n llwyr drwy ffeibr optig. Yn gyffredinol, nid yw'r pellter i'r eiddo yn effeithio ar y cyflymder a gyflawnir..

## Gwasanaeth symudol

Mae'r bwlch rhwng Cymru a chyfartaledd y DU yn fwy o dalcen caled pan ddaw hi at wasanaeth symudol. Yn ddaearyddol mae gan 60% o Gymru wasanaeth 4G gan y 4 gweithredwr (ffigur y DU yw 69%).

**Cwmpas 4G yn ddaearyddol yng Nghymru o gymharu â chyfartaledd y DU 2021**

| Metrig | Cymru | Y DU |
|---|---|---|
| O leiaf un gweithredwr | 90% | 92% |
| Pob gweithredwr | 61% | 69% |

Ffynhonnell: ***Adroddiad rhyngweithiol Cysylltu'r Gwledydd 2021 Ofcom***

## Ymatebion polisi

Ym mis Mehefin **dywedodd** Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, wrth y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith:

> The final 1 per cent [of broadband coverage] is a really knotty problem. [...]... but it's my view that we should now stop being so active in this area. Our budget settlements have shrunk. It is for the UK Government to step in and step up into that space, not for us.

Ym mis Ebrill 2022 daeth Llywodraeth Cymru â'i chynllun atodol a oedd yn darparu cyllid ychwanegol i'r rhai a oedd yn derbyn **cynllun talebau band eang Gigabit** Llywodraeth y DU i ben. **Dywedodd** y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd fod cyllid y DU wedi methu ag adlewyrchu gwir gost cyflwyno band eang yn nhirwedd Cymru, a'i fod wedi cyfarfod â Llywodraeth y DU i awgrymu y dylai Llywodraeth y DU adolygu trothwy cost uchaf y cynllun i adlewyrchu cost cyflwyno band eang gigabit mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell.

Mae **Allwedd Band Eang Cymru** Llywodraeth Cymru yn darparu grantiau i unigolion tuag at gostau gosod cysylltiadau band eang newydd. Mae ei **Chronfa Band Eang Lleol** yn cynorthwyo awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i gyflawni prosiectau band eang yn lleol.

Mae BT wrthi'n darparu cynllun i olynu Cyflymu Cymru ar gyfer Llywodraeth Cymru i gysylltu 39,000 o eiddo. Mae Llywodraeth Cymru'n cyfrannu £24 miliwn o gyllid cyhoeddus gwerth cyfanswm o £59 miliwn. Dylai'r gwaith adeiladu fod wedi'i gwblhau yn 2022.

Mae rhwydweithiau band eang, ar sawl achlysur, wedi derbyn buddsoddiad uniongyrchol gan lywodraethau ledled y DU. Ar y llaw arall, mae rhwydweithiau symudol wedi'u gadael i raddau helaeth at ddefnydd masnachol, gydag ysgogiadau'r llywodraeth yn cael eu defnyddio i gymell cyflwyno ar ymylon hyfywedd masnachol: er enghraifft, drwy addasu rheolau cynllunio ar gyfer mastiau, neu drwy ddyraniad Ofcom o "sbectrwm" (bandiau amleddau radio y trosglwyddir signalau symudol drostynt).

Ym mis Mawrth 2020, cytunodd Llywodraeth y DU i fuddsoddi dros £500 miliwn mewn **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**. Yn y cynllun hwn, bydd y pedwar gweithredwr rhwydwaith symudol – sydd hefyd yn cyfrannu £500 miliwn a mwy o'u hadnoddau eu hunain – yn datblygu rhwydwaith o fastiau ffôn newydd a mastiau sy'n bodoli'n barod, dan oruchwyliaeth cwmni a berchnogir ar y cyd o'r enw Digital Mobile Spectrum Limited. Mae pob gweithredwr wedi ymrwymo i sicrhau y bydd modd cael gwasanaeth data a llais yn 88% o o dir y DU erbyn 2024, a 90% o dir y DU o fewn 6 blynedd o 2020.

# Cymunedau gwledig

## Tlodi trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig

Mae'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru yn nodi bod trafnidiaeth gyhoeddus mewn ardaloedd gwledig yn anaml, annigonol ac yn ddrutach nag mewn mannau eraill. Felly gall argaeledd cyfyngedig trafnidiaeth gyhoeddus arwain at **fwy o ddefnydd o gerbydau preifat mewn ardaloedd gwledig**.

Mae **adroddiad Sustrans Cymru**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, yn pwysleisio bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn rhai o'r rhai sy'n cael eu heffeithio waethaf gan dlodi trafnidiaeth, sef pan mae angen i aelwyd wario mwy na 10% o'i hincwm ar redeg car (waeth a oes gan y cartref gar ai peidio).

Dywedodd y Prif Weinidog yn ei **ymddangosiad blaenorol gerbron y pwyllgor hwn** fod trafnidiaeth gyhoeddus yn dal i gael ei heffeithio'n sylweddol gan y sefyllfa Covid gyda nifer y teithwyr heb ddychwelyd i'r hyn oedden nhw cyn y pandemig. Dywedodd hefyd fod lefel y cymhorthdal a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gadw'r system i fynd yn "rhyfeddol" - £130 miliwn yn y flwyddyn ddiwethaf dros yr hyn a fyddai wedi'i ddisgwyl ar gyfer gwasanaethau bysiau, a ffigur tebyg ar gyfer y rheilffyrdd.

## Plannu coed

**Mae gan Lywodraeth Cymru darged** i blannu 43,000 hectar (ha) o goed newydd erbyn 2030 (bron i 5,000 ha y flwyddyn), gan godi i 180,000 ha erbyn 2050 (dros 6,000 ha y flwyddyn) i helpu i gyrraedd sero net, gan gyd-fynd â **chyngor gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd**.

**Mae cyfraddau plannu coed yng Nghymru wedi bod yn wael ers degawdau**: dim ond 450 ha o goed newydd ar gyfartaledd a blannwyd bob blwyddyn yn y deng mlynedd hyd at fis Mawrth 2021. Ni chyrhaeddwyd cyfradd blannu flynyddol o 1,000 ha ers 1989.

Ddechrau 2021 arweiniodd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, **archwiliad dwfn** i gael gwared ar rwystrau i blannu. Mae'r **argymhellion** yn cynnwys **cynllun ariannu newydd ar gyfer creu coetir** a strategaeth i gydlynu cyflenwad pren ac adeiladu.

Mae Llywodraeth Cymru'n datblygu **coedwig genedlaethol**, a dywedodd y byddai'n **ymgynghori ar strategaeth hirdymor** ym mis Ionawr 2022. Ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn nid oedd yr ymgynghoriad wedi'i ddechrau eto.

Mae **adroddiadau yn y cyfryngau** yn tynnu sylw at bryder cymunedau gwledig am gwmnïau mawr sy'n trechu teuluoedd lleol ac yn prynu ffermydd i blannu coed ar gyfer gwrthbwyso carbon. Nid oes unrhyw ddata cyhoeddedig yn bodoli ar hyd a lled y broblem hon ond **cydnabu** Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd, ym mis Hydref fod perygl o "broblem go iawn".

Dywedodd y Dirprwy Weinidog **ym mis Tachwedd** ei fod wedi sefydlu grŵp arbenigol i edrych ar fodelau ariannu amgen er mwyn gallu cadw'r rheolaeth a'r berchnogaeth yn lleol ac ar sicrhau'r cyllid fel y gellir cyrraedd y targedau plannu coed.

Dywedodd y Prif Weinidog **wrth y Senedd ym mis Chwefror** fod y grŵp arbenigol wedi adrodd gyda chynigion yn cynnwys lleihau cyfraddau taliadau yn y cynllun creu coetir newydd ar gyfer y rhai nad ydynt yn ffermwyr a'r rhai sy'n derbyn credydau carbon, ac adolygu diffiniadau tir i ddiogelu ffermdir cynhyrchiol.

# Cynhyrchu bwyd

## Bil Amaethyddiaeth

Roedd gadael yr UE yn golygu gadael ei **Bolisi Amaethyddol Cyffredin (PAC)**. ***Deddf Amaethyddiaeth 2020*** y DU sy'n cynnal y system cymorth i ffermydd tebyg i'r PAC yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu cynigion i newid taliadau fferm yn sylfaenol ac yn bwriadu cyflwyno Bil Amaethyddiaeth Cymru yn yr hydref.

Bydd y Bil yn sefydlu Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) newydd. **Disgwylir SFS drafft cyn toriad yr haf**.

**Bydd SFS yn nodi dull gwahanol iawn** o roi cymorth i ffermydd, yn seiliedig ar yr egwyddor o **reoli tir yn gynaliadwy**. Byddai'r polisi arfaethedig yn gwobrwyo ffermwyr am ddarparu 'nwyddau cyhoeddus' o'r tir, gan gynnwys gwelliannau cymdeithasol ac amgylcheddol.

Yn groes i'r drefn gyfredol, ni fyddai ffermwyr yn cael cymorth am gynhyrchu bwyd yn benodol. Dadl Llywodraeth Cymru yw bod **gwerth ar y farchnad i fwyd ac felly ni ddylai gael ei gyfrif yn nwydd cyhoeddus** ac felly ni ddylai gael ei ariannu'n uniongyrchol gan y wladwriaeth.

Yn hytrach, byddai cyllid yn canolbwyntio ar fanteision na ellir eu marchnata cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy, megis gwella bioamrywiaeth a dal a storio carbon.

Rhagwelir y bydd y cynllun yn agor ym mis Ionawr 2025. Gallwch ddarllen mwy am y Bil a'r SFS yn y papur briffio Ymchwil y Senedd hwn: **Cymorth amaethyddol**.

## Cynnydd yn nghostau mewnbynnau

Adroddodd yr Andersons Centre **ar 16 Mai fod 'agflation' y DU (chwyddiant sy'n gysylltiedig â chynnydd mewn costau a phrisiau amaethyddol) yn 30.6%**, lefelau nas gwelwyd ers degawdau ac a yrrir yn bennaf gan y rhyfel yn Wcráin.

Ar 20 Mai, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd **fesur brys i liniaru effeithiau'r rhyfel ar amaethyddiaeth a chynhyrchu bwyd yr UE.** Mae hyn yn caniatáu i arian Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) gael ei ddefnyddio i gynorthwyo ffermwyr a busnesau eraill y mae cynnydd sylweddol mewn costau mewnbynnau yn effeithio arnynt.

Dywedodd Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig, **wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) ar 15 Mehefin** nad oedd Cymru 'n gallu manteisio ar y cyllid hwn oherwydd ei bod wedi gadael yr UE. Dywedodd fod ei phenderfyniad blaenorol i gadw Cynllun y Taliad Sylfaenol (taliadau uniongyrchol i ffermwyr) hyd at ddiwedd 2023 yn rhoi sefydlogrwydd mawr ei angen i ffermwyr Cymru.

## Ychwanegu gwerth at gynnyrch amaethyddol

**Gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector bwyd a diod** yw:

> Creu sector bwyd a diod cryf a bywiog yng Nghymru sydd ag enw da ym mhedwar ban byd am ragoriaeth, ac sydd ag un o'r cadwyni cyflenwi mwyaf cyfrifol yn y byd yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol

Bydd y **Rhaglen Datblygu Gwledig (RDP)**, sy'n rhan o'r PAC, yn para tan ddiwedd 2023. Cafodd manylion y **cymorth ariannol i gymryd lle cynlluniau'r Rhaglen Datblygu Gwledig** am y tair blynedd nesaf eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2022.

Mae'r cyllid hwn yn cynorthwyo busnesau cymwys mewn meysydd fel gwella'r amgylchedd ac effeithlonrwydd, coedwigaeth a choetiroedd, a chadwyni cyflenwi bwyd a ffermio. Bwriedir iddo ategu'r SFS.

Dywedodd y Gweinidog y byddai nifer o gynlluniau yn dechrau derbyn ceisiadau yn yr wythnosau a'r misoedd nesaf. Fodd bynnag, ar adeg ysgrifennu'r papur briffio hwn, nid yw'n cynnwys cynllun i gynorthwyo ffermwyr i ychwanegu gwerth at eu cynnyrch, fel oedd yr achos yn wreiddiol.

Cyhoeddodd Llywodraeth y DU **gynllun o'r fath i ffermwyr yn Lloegr** ar 9 Mehefin.

## Strategaeth bwyd cymunedol

Yn ôl y **Rhaglen Lywodraethu** bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu Strategaeth Bwyd Cymunedol i annog cynhyrchu a chyflenwi bwyd o ffynonellau lleol. Dyrennir £1.85 miliwn i ddatblygu'r strategaeth a dywedodd y Gweinidog Materion Gwledig **wrth y Pwyllgor ETRA** ym mis Ionawr fod y gwaith cwmpasu wedi dechrau.

# Polisi arfordirol a morol

## Ynni Adnewyddadwy Morol

Mae cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yn gynyddol bwysig os yw Cymru am gyrraedd ei nod o fod yn **sero net erbyn 2050**. Yn ôl **Cynllun Ynni Morol** 2016 Llywodraeth Cymru, mae Cymru mewn sefyllfa dda i chwarae rhan flaenllaw yn fyd-eang o ran ynni morol.

Cynhaliodd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ymchwiliad yn ddiweddar i **reoli'r amgylchedd morol**. Mae **ei adroddiad** yn amlygu potensial cynyddol ar gyfer swyddi a thwf economaidd mewn cymunedau arfordirol trwy ddatblygu ynni adnewyddadwy morol.

### Ystâd y Goron

Mae **Ystâd y Goron** yn dyfarnu'r hawliau i ddefnyddio gwely'r môr trwy broses brydlesu. Mae erthygl ddiweddar Ymchwil y Senedd, **Pwy sy'n berchen ar wely'r môr, a pham mae'n bwysig**, yn trafod rôl Ystâd y Goron o ran datblygu ynni adnewyddadwy morol Cymru.

Fel y nodir yn y **Rhaglen Lywodraethu,** mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd datganoli Ystâd y Goron a'i hasedau i Gymru. Mae'r **Cytundeb Cydweithio** rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru yn cefnogi hyn.

Yn ogystal â dod â refeniw asedau morol Cymru yn ôl i Gymru (fel mae'n gwneud yn **yr Alban**) **dywedodd y Gweinidog Newid Hinsawdd wrth y Pwyllgor CCEI yn ddiweddar**:

> … it's much more about being able to plan it out and have the right environmental structures in place, and the right ambition, and to have the right leverage with the grid about the connections and so on than it is about the revenue, although, of course, we would not be refusing the revenue; that would be a very welcome addition too.

Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n ceisio dylanwadu ar Ystad y Goron i gynnwys cadwyni cyflenwi lleol a buddion economaidd fel ystyriaethau perthnasol wrth roi hawliau a chontractau gwely'r môr, gan sicrhau rheolaeth gymunedol o ryw fath.

Mae rhan o wely môr Cymru wedi'i gynnwys yng **Nghylch 4 cyfredol Prydlesu Gwynt ar y Môr** - cylch prydlesu mawr cyntaf y DU mewn degawd. **Amlygodd y Gweinidog** bwysigrwydd cael y seilwaith cywir yn ei le a sicrhau bod y grid yn

addas i'r diben fel y gall cymunedau arfordirol wireddu manteision datblygiadau ar y môr.

### Seilwaith porthladdoedd a'r grid

Canfu adroddiad diweddar y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ar **ynni adnewyddadwy yng Nghymru** nad yw seilwaith y grid yn "addas at y diben", "mae'n atal gwaith datblygu ynni adnewyddadwy", ac "mae angen buddsoddiad, atgyfnerthu ac uwchraddio" arno.

Canfu **archwiliad dwfn y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd i ynni adnewyddadwy** y canlynol hefyd:

> ... y rhwystr mawr i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy yng Nghymru yw capasiti yn y rhwydweithiau sy'n gyfrifol am gysylltu cartrefi ac adeiladau â thrydan a nwy.

Cydnabu'r **archwiliad dwfn** hefyd, gyda datblygiad prosiectau ar y môr, fod "porthladdoedd yn borth i gadw gwerth yng Nghymru", ac y bydd Llywodraeth Cymru yn:

> ... gweithio gyda phorthladdoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd ar gyfer arbenigo a chydweithio i gefnogi buddsoddiadau ynni adnewyddadwy. Byddwn hefyd yn gweithio gyda Llywodraeth y DU, ochr yn ochr ag Ystâd y Goron fel perchennog tir allweddol, i gefnogi buddsoddiad strategol mewn porthladdoedd yng Nghymru.

Gweithiodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth ag **Offshore Renewable Energy Catapult** i gynnal gwerthusiad o'r **gallu porthladd presennol** a'r **gallu grid presennol** ar gyfer y sector ynni adnewyddadwy alltraeth arnofiol fel y bo'r angen. Mae'r adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion i Lywodraeth Cymru.

## Addasu arfordirol

Mae **Cynlluniau Rheoli'r Traethlin (SMP)** yn nodi dull strategol ar y cyd ar gyfer rheoli'r arfordir rhag risgiau llifogydd ac erydu arfordirol. Cânt eu datblygu gan grwpiau arfordirol, gydag aelodaeth gymysg gan gynnwys awdurdodau lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a rhanddeiliaid eraill sydd â rôl mewn rheoli'r arfordir.

Nid ydynt yn ddogfennau statudol ond **dywed CNC** fod Llywodraeth Cymru "eisiau iddyn nhw gael eu hystyried mewn penderfyniadau a chynlluniau strategol".

Mae **Strategaeth Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru** yn nodi [pwyslais wedi ei ychwanegu].

> [Yng Nghymru] bydd 95 o ardaloedd arfordirol yn symud o bolisi 'cynnal y llinell' (amddiffyn) i 'dim ymyrraeth weithredol' neu 'adlinio a reolir' erbyn 2100. **Mae'n bosibl y bydd angen adleoli eiddo mewn tua 40 o'r ardaloedd hynny.**

## Cefnogi cymunedau arfordirol

Mae **Cronfa Cymunedau'r Arfordir** yn annog datblygiad economaidd cymunedau arfordirol trwy roi cyllid i greu twf economaidd cynaliadwy a swyddi. Dyfarnwyd £22 miliwn i **102 o brosiectau ledled Cymru** ers 2012.

Penderfynodd Llywodraeth y DU atal cymorth i'r gronfa. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi **parhau â chymorth penodol** ar gyfer trefi arfordirol,

> … gan fuddsoddi £6 miliwn arall fis Mawrth diwethaf i gefnogi 27 o brosiectau sy'n canolbwyntio ar greu a diogelu swydd ac adfywio'r stryd fawr yng nghanol trefi arfordirol

Roedd cylch 6 o'r gronfa yn cael ei ariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Mae bellach wedi cau ar gyfer ceisiadau ac nid oes unrhyw cylchoedd newydd wedi'u cynllunio ar hyn o bryd.

# Porthladdoedd rhydd

Mae **Llywodraeth Cymru wedi dod i gytundeb** gyda Llywodraeth y DU i sefydlu porthladd rhydd yng Nghymru.

Ardal o fewn ffin ddaearyddol gwlad ond y tu allan i'w hardal dollau yw porthladd rhydd, ac fel arfer mae wedi'i lleoli gerllaw neu mewn porthladd neu faes awyr arfordirol. Gellir mewnforio nwyddau i mewn i borthladd rhydd, neu allforio nwyddau allan ohono, a hynny heb orfod talu tollau na threthi. Dim ond pan fydd nwyddau'n gadael y porthladd rhydd ac yn dod i mewn i'r farchnad ddomestig y bydd angen talu tollau neu drethi arnynt.

Mae Ymchwil y Senedd wedi **cyhoeddi erthygl** yn amlinellu'r dadleuon o blaid ac yn erbyn porthladdoedd rhydd, ac yn egluro safbwynt Llywodraeth Cymru cyn y cytundeb diweddar.

## Sefydlu porthladdoedd rhydd ledled y DU

Yn 2020 agorodd Llywodraeth y DU **y broses ar gyfer cynigion** i sefydlu porthladdoedd rhydd yn Lloegr. Gwnaeth yn glir ei bod am sefydlu o leiaf un yr un yng Nghymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban hefyd.

Yn ei **gyllideb ym mis Mawrth 2021**, cyhoeddodd y Canghellor y byddai wyth porthladd rhydd newydd yn Lloegr.

**Mae'r Prif Weinidog wedi dweud** nad yw porthladdoedd rhydd yn bolisi gan Lywodraeth Cymru, gan nodi pryderon ynghylch safonau amgylcheddol a chyflogaeth. **Codwyd cwestiynau o'r blaen hefyd** ynghylch lefel y cymorth ariannol sydd ar gael o gymharu â'r hyn sydd ar gael ar gyfer porthladdoedd rhydd Lloegr.

Ym mis Gorffennaf 2021 amlinellodd Llywodraeth Cymru **amodau** yr oedd yn disgwyl iddynt gael eu bodloni cyn i'r trafodaethau ynghylch porthladd yng Nghymru barhau. Roedd hyn yn cynnwys gwneud penderfyniadau ar y cyd ar asesu ceisiadau a dyfarnu statws porthladd rhydd, amodau ynghylch safonau amgylcheddol a setliad ariannu teg.

Mae'r ddwy lywodraeth wedi dod i gytundeb ers hynny. Dywedodd **Llywodraeth Cymru** bod ei gofynion wedi'u bodloni. Bydd £26m o gyllid cychwynnol nad yw'n ad-daladwy yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth y DU – yr un cytundeb â'r hyn a roddwyd ar gyfer porthladdoedd rhydd yn Lloegr.

## Porthladdoedd rhydd yng Nghymru

Mae **Llywodraeth Cymru wedi awgrymu** nad yw porthladd rhydd yng Nghymru yn anochel. Mae'n dweud bod yn rhaid i geisiadau am statws porthladd rhydd ddangos cefnogaeth i'n hagenda gwaith teg a darparu gwerth am arian i drethdalwyr Cymru.

Nid yw'r strwythur y gallai porthladd rhydd yng Nghymru ei gymryd yn glir ychwaith. Mae'r ddwy lywodraeth yn **agored i borthladd rhydd aml-safle**, gan lacio'r terfyn ffin arferol o 45km. Mae porthladd Aberdaugleddau wedi dweud **wrth Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin** yn flaenorol mai nifer cyfyngedig o barthau o ansawdd uchel sydd fwyaf effeithiol a'u bod yn argymell bod nifer cyfyngedig o un neu ddau safle yn cael eu hystyried yng Nghymru.

Nid yw'r posibilrwydd o fwy nag un porthladd rhydd yng Nghymru wedi'i ddiystyru. Ym mis Mai **dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Cyfarfod Llawn** er bod y cytundeb presennol yn un ar gyfer cyllid ar gyfer un safle "mae cyfle posibl [am fwy] os gwneir mwy nag un achos cymhellol".

Dywedodd hefyd y bydd y prosbectws ar gyfer ceisiadau "yn dod i'r amlwg dros yr haf".